Gorsaf Bŵer Penfro Arfaethedig RWE npower
Cais Am Drwydded Amgylcheddol

Beth yw trwyddedu amgylcheddol?

- Rheoleiddiwn rai agweddau ar effaith (neu 'ôl troed') amgylcheddol gweithgareddau rhai diwydiannau yng Nghymru a Lloegr trwy drwyddedu amgylcheddol.

- Cyn y gall y fath weithgareddau ddigwydd, rhaid i'r gweithredwr un ai cael trwydded amgylcheddol gennym ni, neu, yn achos rhai gweithgareddau gwastraff amheryglus, ymgofrestru â ni.

- Mae trwyddedau amgylcheddol yn cynnwys amodau a gynlluniwyd ar gyfer atal neu leihau llygredd a niweidio iechyd dynol. Mae trwydded amgylcheddol yn ein galluogi ni i osod cyfyngiadau ar ollyngiadau i'r awyr, i ddŵr ac ar dir, ac i fynnu yr arolygir hwy. Gallwn osod amodau ar bethau eraill hefyd: sut y mae gweithredwr yn rheoli gwastraff, e.e.

- Defnyddiwn ddau fath o drwydded: **safonol** ac **unswydd**.
    - Mae gan ***drwyddedau safonol*** *reolau safonol* ar gyfer gweithgaredd rheoledig neilltuol er mwyn darparu'r raddfa angenrheidiol o amddiffyn amgylcheddol. Gallai'r rheolau gynnwys cyfyngiadau ar bethau megis maint neu leoliad. Maent ar gael i'w gweld ar ein gwefan ni. Os yw busnes yn canfod ystod sy'n addas ar gyfer ei weithgaredd, gall ymgeisio am drwydded safonol. Mae trwyddedau safonol ar gael ar gyfer gweithgareddau sydd, yn gyffredinol, ag effaith amgylcheddol ddichonol fechan, ac felly ag angen rheolau syml.
    - Mae ***trwyddedau unswydd*** ar gyfer gweithgareddau na ddônt o dan reolau safonol. Yn gyffredinol, mae ganddynt effaith ddichonol fwy ar yr amgylchedd, ac ag angen rheolau cymhlethach na'r eiddo gweithgareddau y gellir defnyddio trwyddedau safonol ar eu cyfer. Os barnwn hynny'n addas, lluniwn drwydded unswydd ar gyfer y gweithgaredd arfaethedig. Os rhoddwn drwydded i Orsaf Bŵer Penfro RWE npower, bydd yn drwydded unswydd.

Paham yr ymgynghorwn

- Mae ymgynghori'n ddyletswydd gyfreithiol arnom ni o dan y Gyfarwyddeb Atal a Rheoli Llygredd Cyfun (IPPC) (gweler y Rhestr Geiriau). Yn nogfen Cyfranogiad y Cyhoedd Asiantaeth yr Amgylchedd, dangosir sut y cyflawnir hynny. Bydd y trefniadau a ddisgrifir yn y datganiad hwn yn sicrhau y gallwn fodloni'r gofynion hynny ple bo angen.

- Mae ymgynghori'n goleuo'r cyhoedd (a chyrff eraill sydd â diddordeb), fel y gallant wneud sylwadau deallus i'r rheolydd, gan alluogi'r rheolydd i wneud gwell penderfyniadau.

- Rhaid inni ystyried unrhyw sylwadau y mae ymgynghoreion yn ei gwneud yn ystod y cyfnodau ymgynghori.

- Dymunwn wneud y penderfyniad gorau wrth drwyddedu. Mae gwrando barn eraill o gymorth inni ystyried pryderon na fyddent yn hysbys inni fel arall.

- Ymgynghorwn er mwyn caniatáu i unigolion a chyrff sydd â diddordeb fod â rhan yn ein penderfynu ni ynghylch pynciau a allent effeithio arnynt, neu lle bo ganddynt wybodaeth arbenigol.

- Ein swyddogaeth ni yw penderfynu rhoi neu beidio, ar sail effeithiau dichonol gweithgaredd diwydiannol neilltuol ar yr amgylchedd ac ar iechyd dynol. Gwnawn hyn trwy ystyried agweddau technegol y gweithgaredd, unrhyw allyriadau arfaethedig, ac ansawdd yr amgylchedd lleol.

Pryd yr ymgynghorwn

- Ein swyddogaeth ni yw penderfynu ar sail effeithiau dichonol gweithgaredd diwydiannol neilltuol ar yr amgylchedd neu iechyd dynol. Gwnawn hyn trwy ystyried agweddau technegol y gweithgaredd, unrhyw allyriadau arfaethedig, ac ansawdd yr amgylchedd lleol.

- Ymgynghorwn yn eang ynghylch ceisiadau am drwyddedau unswydd, ond nid ynghylch ceisiadau am drwyddedau safonol.

Â phwy yr ymgynghorwn

- Gall unrhyw un weithio â ni ar ein penderfyniadau trwyddedu yn y modd a ddisgrifiasom uchod.

- Os oes gennych ddiddordeb, neu os yw penderfyniad cynllunio'n effeithio arnoch, croesawem eich cyfraniad chi.

- Efallai fod gennych chi, neu'r corff yr ydych yn aelod ohono, ddiddordeb cyffredinol yn natblygiad y cais hwn. Hoffem gytuno dulliau gweithio'n effeithiol â chi, megis penderfynu ar ddulliau cyfathrebu gorau, meysydd diddordeb neilltuol, a sut y gallwn gynorthwyo'n gilydd orau â'r broses.

- Mae gan rai cyrff statudol ddiddordeb mewn agweddau neilltuol o drwyddedu amgylcheddol. Rydym wedi cytuno dulliau gweithio â hwy, lle gallwn. Mae'r fath gyrff yn cynnwys:

    - Cyngor Cefn Gwlad Cymru/Natural England;
    - LACORS (Cyd-drefnwyr Gwasanaethau Rheoleiddiol Awdurdodau Lleol);
    - Awdurdodau Lleol (adrannau Cynllunio a Gwarchod yr Amgylchedd);
    - Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch;
    - Dŵr Cymru Welsh Water/ Water UK;
    - Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru/ yr Asiantaeth Diogelu Iechyd;
    - Yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Hysbysebion

Pan hysbysebwn waith newydd, cynhwyswn y manylion canlynol yn yr hysbyseb:

- manylion yr ymgeisydd;
- cyfeiriad y gwaith;
- y prif weithgareddau arfaethedig;
- ple a pha bryd y gellir gweld gwybodaeth berthynol i'r cais;
- dyddiad olaf cyflwyno sylwadau;
- y cyfeiriad (post ac e-bost) i ba un y dylid gyrru sylwadau;
- gwybodaeth y mae ei hangen o dan y Gyfarwyddeb IPPC, parthed gweithfeydd perthnasol.

Y broses ar gyfer ceisiadau newydd am Drwyddedau Unswydd

Derbyniwn gais dilys ar gyfer gweithgaredd newydd. Hysbysebwn y cais **o fewn 30 niwrnod.**	Y sawl sy'n arfaethu gweithgaredd newydd yn gyrru cais penodol atom. Edrychwn a yw'r cais yn ddilys (wedi'i wneud yn rheolaidd, h.y. – gweler y Rhestr Geiriau)
↓	
Gwahoddwn unigolion a chyrff i wneud sylwadau ynghylch y cais, a roddir ar gofrestrau cyhoeddus yr Awdurdod Lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd. **Bydd 28 niwrnod o ymgynghori** (gallwn ymestyn y cyfnod os oes angen).	**Hysbysebwn y cais ar ein gwefan ni ac ym mhapur newydd lleol.** *Cynhwyswn wybodaeth am ble y gallwch ch chi weld gwybodaeth am y cais, a sut a phryd mae gyrru eich ymatebion.* *Dyma'ch cyfle chi i roi inni sylwadau ynghylch y cais.*
↓	
Ar sail y cais a'r sylwadau a dderbyniwyd, penderfynnwn a dylid rhoi trwydded, a pha amodau i'w gosod.	Ystyriwn y cais ynghyd â'r sylwadau a dderbyniwn trwy ein hymgynghoriad ni. Efallai y gofynnwn am ragor o wybodaeth, neu gyngor unigolion neu gyrff eraill, neu'r ddau beth, os oes angen hynny er mwyn penderfynu.
Efallai yr ymgynghorwn drachefn ynghylch ein penderfyniad arfaethedig a'n dogfen benderfynnu ni, a roddwn ar y cyfrestrau cyhoeddus. Bydd yr ymgynghoriad hwn am **20 niwrnod gwaith.**	Lle bo hynny'n addas yn ein barn ni, efallai yr ymgynghorwn ragor ynghylch ein safbwynt "arfaethedig" ni er mwyn galluogi unigolion a chyrff i gyfrannu'n effeithiol cyn inni benderfynu'n derfynol.
↓	
Cyhoeddwn ein penderfyniad ni ynghyd ag esboniad. **Hysbysebwn hwn ar ein gwefan ni.**	Cyhoeddwn ein penderfyniad terfynol, ac esboniad ar sut y penderfynasom. **Rhoddwn y penderfyniad a'r esboniad ar y cofrestrau cyhoeddus.**

Rhestr Geiriau

Trwydded unigryw Trwydded a luniwyd yn benodol ar gyfer gweithredu neilltuol ar safle neilltuol.
Trwydded safonol Trwydded ag un amod yn unig, yn mynnu mai'r rheolau safonol fydd amodau'r drwydded.
Rheolau safonol Set o reolau, ar gyfer math neilltuol o weithredu, y mae angen cydymffurfio â hwy.
Wedi'i wneud yn rheolaidd Gwneir cais yn rheolaidd os yw'n gyfan ac y gellir penderfynu arno.
Cofrestr Gyhoeddus Cadwn Gofrestrau Cyhoeddus ym mhob rhanbarth yng Nghymru a Lloegr. Mae arnynt wybodaeth ynghylch trwyddedau a roddwyd o dan y Rheoliadau. Mae'r cofnodion hyn ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn ystod oriau swyddfa arferol.
Cyfarwyddeb IPPC Cyfarwyddeb 96/61/EC ynghylch rheoli ac atal llygredd cyfun. Mae'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd hon yn orfodol ar gyfer yr holl Aelod-wladwriaethau, a gesyd allan sut y dylid rheoleiddio gweithgareddau diwydiannol er mwyn amddiffyn yr amgylchedd i raddau helaeth iawn.
Cyfarwyddeb Cyfranogiad y Cyhoedd Mae gofynion Cyfranogiad y Cyhoedd [CC] yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Myn y rheoliadau fod rhaid wrth gyfranogiad y cyhoedd ynghylch ceisiadau newydd, ond nid Trwyddedau Rheolau Safonol.
Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007.